


Dewis safle GanBwyll - 20mya



Bydd GanBwyll a heddluoedd Cymru'n cefnogi'r terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol newydd. Ynghyd â phartneriaid eraill, megis Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Awdurdodau Lleol a grwpiau Gwylio Cyflymder Cymunedol, yr ydym yn ymgysylltu â modurwyr a chymunedau ac yn eu haddysgu er mwyn sicrhau bod y terfyn cyflymder newydd yn cael ei barchu.



*Ymgysylltu ar ochr y ffordd gan ddefnyddio ymgyrchoedd 'Ugain'. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn defnyddio offer monitro cyflymder i adnabod pobl sy'n gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder, cyn stopio'r cerbyd a rhoi dewis o ddirwy a phwyntiau neu gyflwyniad addysgiadol i'r gyrrwr. Ni fydd y gyrrwr mwyaf peryglus yn gymwys a byddant yn cael eu herlyn.

Cyflwynir yr ymgyrchoedd hyn gan Gan Bwyll, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Awdurdodau Lleol a heddluoedd Cymru.

